Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Dogfen Ymgynghori**

insert front cover photo or link to image, if required

# Bwyd *o* Gymru, Bwyd *i* Gymru

*Ymgynghoriad ar Strategaeth Fwyd ar gyfer Cymru*

Dyddiad cyhoeddi: **06 Gorffennaf 2010**
Ymatebion erbyn: **28 Medi 2010**

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau am strategaeth fwyd bosibl ar gyfer Cymru – Bwyd *i* Gymru, Bwyd *o* Gymru. Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth eang o le bwyd yng Nghymru ac mae'n ceisio cynnig ffordd o fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â bwyd. Caiff ei seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gynhyrchu a bwyta bwyd.

Mae'n nod gan y strategaeth i ddatblygu cyfeiriad clir fel y gall diwydiant bwyd Cymru dyfu mewn ffordd gynaliadwy a phroffidiol. Mae'n talu sylw i faterion trawsbynciol fel iechyd, addysg a diwylliant bwyd, diogelu'r cyflenwad bwyd, cynaliadwyedd amgylcheddol a datblygiad cymunedol a fydd yn sylfaen ar gyfer edrych ar bolisi bwyd yng Nghymru mewn ffordd integredig. Trwy weithio fel hyn, y bwriad yw sicrhau system fwyd wydn ac annog economi fwyd gadarnach yng Nghymru fel y gall busnesau bwyd gystadlu'n effeithiol gartref a thramor.

Er bod y Strategaeth Fwyd newydd wedi'i gosod yn y rhannau o'n polisi 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad' sy'n trafod datblygu marchnadoedd, mae hefyd yn ymwneud â swyddogaeth ehangach bwyd mewn nifer o feysydd eraill y mae angen eu cydnabod os ydym am ddatblygu'r marchnadoedd hyn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, disgwylir y caiff dogfen ddiwygiedig ei chyhoeddi (tua Rhagfyr 2010). Bydd hon yn fframwaith cyffredin a ddefnyddir i gyfrannu at gynlluniau gweithredu a fydd yn codi neu sydd eisoes ar y gweill, fel y rhai ar gyfer garddwriaeth, cig coch, cynnyrch organig, cynnyrch llaeth a physgodfeydd.

**Sut i ymateb**

Cewch ymateb mewn gwahanol ffyrdd – trwy anfon eich ymateb ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu trwy anfon neges e-bost i'r cyfeiriad a nodir.

Yn ogystal, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled Cymru ym mis Medi.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Holwch os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu iaith arall.**

Mae rhagor o wybodaeth am y broses ymgynghori a digwyddiadau cysylltiedig ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://www.cymru.gov.uk/bwyd

| | |
|---|---|
| **Manylion Cysylltu** | Os hoffech ragor o wybodaeth: |


Enw: Lisa Penny

Cyfeiriad: Yr Uned Strategaeth a Pholisi Bwyd
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3UR

E-bost: foodpolicy@wales.gsi.gov.uk


**Diogelu Data**

Sut y defnyddir sylwadau a gwybodaeth a roddwch i ni

Bydd staff Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n delio â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yn gweld copi llawn o unrhyw ymateb a anfonwch chi atom. Efallai y bydd rhai eraill o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei weld hefyd i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau eraill.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Fe allwn gyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel rheol, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r corff a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Gall hyn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i ni gyhoeddi'ch enw neu'ch cyfeiriad, nodwch hynny ar bapur wrth anfon yr ymateb. Yna byddwn yn eu cuddio.

Hyd yn oed os caiff enwau neu gyfeiriadau eu cuddio, gallent gael eu cyhoeddi yn nes ymlaen ond nid ydym yn meddwl y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddal gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd rhywun yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i dal yn ôl, bydd raid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, byddai hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun er eu bod wedi gofyn i ni beidio â'u datgelu. Byddai'n rhaid i ni gysylltu â'r person hwnnw a gofyn eu barn cyn penderfynu datgelu'r wybodaeth.

**Rhagair** gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Elin Jones AC

Mae'n rhaid i bawb ohonom gael bwyd ac mae'r diwydiant bwyd yn rhan allweddol o'n heconomi. Rydym yn bwyta er mwyn cadw'n iach ac mewn dathliadau diwylliannol. Mae Cymru'n prysur ennill enw da, gartref a thramor, am sector bwyd, diod a lletygarwch safonol ac arloesol. Diolch i'n cynhyrchwyr, ein daearyddiaeth unigryw, ein hinsawdd a'n harferion ffermio, gall Cymru ymffrostio mewn nifer o fwydydd o'r safon uchaf, o'n cig oen a'n cig eidion enwog i'n cawsiau a'n bwyd môr blasus. Mae'r diwydiant bwyd a diod yn bwysig i economi a phobl Cymru; mae sector bwyd-amaeth y Deyrnas Unedig yn cyfrannu hyd at 7 y cant (£79.4 biliwn) o'r GYC. Mae'n bwysig ein bod yn cydgynllunio ac yn cydweithio i gynyddu hyn ac rwy'n hyderus y gallwn adeiladu ar y llwyddiant a gawsom hyd yma er mwyn sicrhau diwydiant llewyrchus a fydd yn datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae nifer o faterion cymhleth a chydgysylltiedig yn ymwneud â bwyd, fel gofalu bod pawb yn dal i gael y bwyd y mae arnynt ei angen. Mae hynny'n golygu cael diwydiant sy'n gynaliadwy o safbwynt economaidd ac amgylcheddol ac a all wrthsefyll pwysau byd-eang ac wynebu'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae materion bwyd yn allweddol i bawb – cwsmeriaid, y diwydiant a'r Llywodraeth. Mae pwysigrwydd ailgysylltu â bwyd a'r ffordd y gaiff ei gynhyrchu yn neges sylfaenol i bawb sy'n ymwneud â dyfodol cyflenwi bwyd yng Nghymru. Mae'r Strategaeth hon yn pennu'r cyfeiriad cyffredinol – ni all ymdrin yn fanwl â phob maes polisi y bydd yn effeithio arno. A minnau'n Weinidog dros Faterion Gwledig yn Llywodraeth y Cynulliad, rwy'n awyddus i Gymru wneud ei gorau glas i sicrhau system fwyd gynaliadwy sy'n bodloni ein blaenoriaethau economaidd ac ecolegol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ymestyn allan i bob rhan o'r Llywodraeth er mwyn cydweithio i rannu agendâu a gwneud gwell cysylltiadau.

Y gadwyn fwyd sy'n gyfrifol am 31% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae gan bawb ohonom ran i'w chwarae yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Trwy gydweithio, gallwn ymdrechu i gywiro'r sefyllfa – gan geisio prynu bwyd lleol, bwyta bwyd yn ei dymor a lleihau milltiroedd bwyd er mwyn gostwng allyriadau carbon. Yn ogystal, mae angen ceisio defnyddio llai o stwff i lapio bwyd gan fod llawer ohono'n mynd i safleoedd tirlenwi, a cheisio creu rhagor o gynefinoedd ar gyfer trychfiloed a bywyd gwyllt.

Er mwyn dangos fy ymroddiad i'r Strategaeth Fwyd gyffredinol hon ar gyfer Cymru, gofynnais i Dr Haydn Edwards, Cadeirydd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod, a swyddogion o'm hadran i a rhannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad, i ystyried y ffordd orau o gydbwyso'r angen i gynhyrchu mwy o fwyd ac i ddefnyddio mwy o ynni a'r angen i warchod ein hamgylchedd ar ein cyfer ni yn awr, ac i'r dyfodol.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dyfodol bwyd *o* Gymru ac *ar gyfer* Cymru a'n hymrwymiad eglur ni i egwyddorion sylfaenol allweddol Cynaliadwyedd, Gwytnwch, Cystadleurwydd a Phroffidioldeb.

Bydd cydweithio, cydweithredu a chyfraniad y diwydiant yn hollbwysig er mwyn gwireddu ein gweledigaeth a dyna pam yr ydym wedi cynnwys meysydd yr holl Weinidogion, gan gydweithio â phobl ym meysydd iechyd, addysg a chynaliadwyedd i feithrin agwedd gydlynus rhyngddynt i gyd.

Ni all y Llywodraeth wneud yr holl waith ar ei phen ei hunan ac eisoes mae'r sector bwyd a diod yng Nghymru yn destun edmygedd am ei barodrwydd i gydweithio. Rwy'n credu'n gryf y bydd parhau i gydweithio fel hyn yn hwb i'r diwydiant gan ei alluogi i wneud newidiadau sylfaenol fydd yn sicrhau dyfodol gwell iddo ac yn golygu y gellir cynhyrchu bwyd i bobl Cymru mewn ffordd gynaliadwy heddiw ac i'r oesoedd a ddêl.

Rwy’n gobeithio y byddwch yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn gyda ni er mwyn sicrhau bod y strategaeth derfynol yn un sy’n cynrychioli’r ffordd orau ymlaen.

**Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**

## Pam y mae arnom angen Strategaeth Fwyd?

Yn y gorffennol, cafodd disgwyliadau pobl o'r system fwyd eu cyflawni i raddau helaeth trwy ddarparu symiau mawr o fwydydd o ansawdd da am bris rhesymol i gynifer o bobl ag yr oedd modd. Fodd bynnag, mae effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol ein system fwyd a'i heffaith ar iechyd pobl wedi dod yn fwyfwy amlwg a bu cynnydd yn y pryderon am ddiogelu'r cyflenwad bwyd.

Mae mwy o bwysedd ar adnoddau tir, dŵr, ynni, poblogaethau a bioamrywiaeth oherwydd her enfawr addasu i newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effeithiau, a'r gystadleuaeth am adnoddau. Er y gall ymddangos nad yw'r materion hyn yn berthnasol iawn i'r sector bwyd yng Nghymru, mae'n rhaid i ni dalu sylw i'r datblygiadau hyn ac ymateb iddynt er mwyn ffynnu a chadw cysylltiad agos â'r cwsmeriaid hollbwysig yng Nghymru a'r tu hwnt.

Bydd effeithiau bwyd ar iechyd yn dod yn bwysicach o hyd ac yn cynnig cyfleoedd i bob rhan o sector bwyd Cymru. Ar yr un pryd, bydd mwynhau pleser synhwyraidd bwyta a phleser bwyta'n gymdeithasol yn dal yn bwysig.

Mae'r Strategaeth Fwyd hon yn ceisio talu sylw i'r pwysedd a'r cymhlethdodau hyn er mwyn hybu datblygiad y sector dros y deng mlynedd nesaf a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a ddaw â manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i Gymru.

## Yr hyn a wyddom am system fwyd Cymru

Mae system fwyd Cymru yn un integredig iawn. Mae'n dibynnu ar systemau'r Deyrnas Unedig ac Ewrop ac mae dylanwad systemau byd-eang yn drwm arni. Mae'r cyfuniad o nodweddion sy'n gwneud system fwyd Cymru'n arbennig yn galw am bolisi integredig fel y gall pawb ohonom gyfrannu at ddatblygu diwydiant llwyddiannus a bywiog a fydd yn lles i'n holl bobl, yr economi a'r amgylchedd naturiol.

Mae tri dosbarth o gynhyrchion: cig eidion, cig oen a chynnyrch llaeth, yn dal i arwain y maes. Er mai'r sectorau hyn sydd i gyfrif am dri chwarter cynnyrch amaethyddol Cymru, mae 'na gyfleoedd eraill i ddatblygu, i roi cynnig ar gyfuniadau eraill o fwyd ac i gynhyrchu bwydydd gwahanol ar ein ffermydd. Mae systemau cynhyrchu, prosesu a dosbarthu lleol i'w cael ochr yn ochr â sector sy'n rhoi pwyslais ar allforio ac a reolir gan gwmnïau mawr sydd â chyfleusterau prosesu sylweddol. Gall y ffordd y caiff y rhain eu hintegreiddio i'r economi leol fod yn bwysig er mwyn datblygu rhagor o farchnadoedd i gynhyrchwyr a sicrhau gwell cyflenwad o ddefnyddiau crai ar gyfer proseswyr.

Mae'r hyn a wyddom am wahanol rannau system fwyd Cymru yn amrywio. Mae cryn dipyn o waith dadansoddi wedi'i wneud ar y sector amaethyddol ond ni chafwyd dadansoddiad llawn o feysydd eraill, sy'n rhannau pwysig o system fwyd Cymru e.e. manwerthu, gwasanaethau bwyd, caffael cyhoeddus, a'r agweddau cymdeithasol, diwylliannol, iechydol a chymunedol.

## Sylfaen y Strategaeth

Mae'r Strategaeth Fwyd yn ceisio talu sylw i'r pwysedd sydd ar y system fwyd a'i chymhlethdodau er mwyn hybu datblygiad y sector dros y deng mlynedd nesaf a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a ddaw â manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i Gymru.

Mae'r strategaeth yn adlewyrchu ac yn hybu arbenigrwydd Cymru o ran y bwyd y mae'n ei gynhyrchu, ei hasedau naturiol a'i threftadaeth ddiwylliannol, dymuniadau cwsmeriaid a blaenoriaethau cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae strategaeth fwyd benodol ar gyfer Cymru'n gallu canolbwyntio ar y pwerau y gellir eu defnyddio i ddatblygu polisïau a llunio deddfwriaeth yng Nghymru er mwyn hyrwyddo gweledigaeth ac amcanion y strategaeth mewn ffordd gydgysylltiedig ac effeithiol.

Seilir y Strategaeth hon ar y gred bod angen edrych ar y system fwyd yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys pob agwedd ar gynhyrchu a bwyta bwyd. Caiff ei chyflwyno mewn ffordd strategol sy'n cynnwys gwahanol rannau o'r llywodraeth yn hytrach na'i chyfyngu i bortffolios a chyfrifoldebau adrannau unigol. Y bwriad yw meithrin perthynas gynhwysol a chydweithredol â phob rhan o'r sector bwyd[1].

## Ffactorau sy'n sbarduno newid ac argymhellion am gamau i'w cymryd

Y thema gyffredinol wrth weithredu'r Strategaeth Fwyd yw meithrin cysylltiadau a galluoedd. Caiff y thema ei datblygu trwy bum ffactor allweddol sy'n sbarduno newid. Dyma restr o'r pump a phrif feysydd yr argymhellion ar gyfer pob un:

- Datblygu Marchnadoedd
  - Gwell marchnata er mwyn datblygu marchnadoedd gartref a thramor
  - Datblygu brandiau Cymreig cryfach
  - Hwyluso mynediad i farchnadoedd a hybu marchnadoedd lleol a rhanbarthol
  - Hybu mentergarwch

- Y Diwylliant Bwyd
  - Grymuso dinasyddion a defnyddwyr trwy ddarparu mwy o wybodaeth
  - Hybu ffyrdd cynaliadwy o reoli galw
  - Cysylltu'r diwylliant bwyd a marchnata

- Cynaliadwyedd

[1] Mae'r system fwyd yn wahanol i'r sector bwyd. Mae 'sector bwyd' yn cyfeirio at y sector masnachol sy'n cynnwys gweithgareddau economaidd fel cynhyrchu, gwneuthur, dosbarthu, paratoi a manwerthu bwyd, a gwasanaethau bwyd. Mae'r 'system fwyd' yn cynnwys y sector bwyd ac effeithiau gwahanol rannau'r sector ar yr amgylchedd naturiol a chymdeithas.

    - Datblygu dulliau cynhyrchu a chadwyni cyflenwi ecolegol-effeithlon
    - Lleihau effaith gwastraffu bwyd
    - Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau a dulliau rheoli gwastraff cynaliadwy

- Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi
    - Cefnogi mentergarwch
    - Datblygu sgiliau ar hyd y gadwyn cyflenwi bwyd
    - Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar gyfer y gadwyn fwyd ac er mwyn rhannu gwybodaeth mewn ffordd effeithlon
    - Cymorth i arloesi a datblygu cynhyrchion arbenigol
    - Cefnogi cydweithio

- Integreiddio
    - Gwneud i'r Strategaeth Fwyd weithio ar bob lefel o lywodraeth
    - Cyfrannu at newidiadau yn y fframweithiau rheoleiddio
    - Defnyddio dulliau 'meddal' o wneud newidiadau

- Gweithredu
    - Datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn a thryloyw
    - Cydweithio'n agos â phrosesau eraill i ddatblygu dangosyddion
    - Cychwyn proses o adnewyddu'r strategaeth

**Crynodeb o gyfeiriad y Strategaeth Fwyd**

1. *Bydd bwydydd lleol a bwydydd sydd wedi'u brandio'n lleol o Gymru yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo mewn marchnadoedd yng Nghymru, yng ngweddill y DU ac yn ehangach.*

2. *Bydd hunaniaeth bwydydd o Gymru yn cael ei chryfhau trwy set unigryw o ddangosyddion tarddle a ddylai fagu hyder yn rhinweddau cysylltiedig bwyd o Gymru.*

3. *Bydd y sector cyhoeddus yn defnyddio pŵer prynu i gefnogi datblygiad strategol y sector bwyd.*

4. *Bydd diwylliant bwyd Cymru yn cael ei gryfhau a'i ddefnyddio i ddatblygu galw cyson am fwyd o safon sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys iach. Dyma un o gynhwysion pwysicaf system fwyd gynaliadwy.*

5. *Bydd twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at farchnata a hyrwyddo cynhyrchion bwyd o Gymru*.

6. *Mae'r Strategaeth Fwyd yn pwysleisio ac yn derbyn bod angen i gadwynau bwyd cynaliadwy fod ag effeithlonrwydd ecolegol yn rhan ganolog ohonynt*.

***7.*** *Bydd y sector bwyd yn cael ei annog i fod yn gyfrifol am gyfrannu cymaint â phosibl at liniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd yn ddomestig*.

***8.*** *Mae'r Strategaeth Fwyd yn cydnabod cyfrifoldebau moesol Cymru o fewn system fwyd byd-eang. Bydd hyn yn cynnwys wynebu'r her o sicrhau bod pawb, waeth beth yw eu hincwm, yn gallu cael y deiet cytbwys, iachus sydd ei hangen arnynt*.

***9.*** *Derbynnir bod cadwynau cyflenwi sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau agored a theg yn sail i system fwyd gynaliadwy.*

***10.*** *Bydd camau cydweithredu yn cael eu meithrin ar draws y cadwynau cyflenwi, a bydd yr egwyddorion a amlinellir yn y Strategaeth yn cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd.*

***11.*** *Bydd effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi yn cael ei phwyso a mesur yn ehangach yn hytrach na'i hystyried yn nhermau cadwyn cost-a-budd economaidd yn unig a dylai gynnwys ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd.*

***12.*** *Dylid gwella galluoedd trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan fel y gall y sector ddarparu cynhyrchion sy'n gystadleuol, sy'n cyfateb i anghenion defnyddwyr ac sy'n cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy.*

***13.*** *Bydd polisïau bwyd yn cael eu hintegreiddio i mewn i feysydd polisi perthnasol a dylai hyn fod yn elfen allweddol o weithrediad llwyddiannus y Strategaeth.*

***14.*** *Bydd polisïau bwyd yn cael eu hintegreiddio ar wahanol lefelau o lywodraethu fel eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd ac fel bod yr egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon ac a hyrwyddwyd yn y Strategaeth yn cael eu cofleidio ar draws cyd-destun y polisi.*

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw chi:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ymateb i'r Strategaeth Fwyd**

1. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer bwyd yng Nghymru ymhen deng mlynedd. Ydych chi'n rhannu'r weledigaeth hon a sut y byddwch yn helpu i'w gwireddu? Sut y byddech chi neu'ch sefydliad yn cyfrannu at y gwaith?

2. Ydych chi o'r farn fod y cyfnod o ddeng mlynedd yn briodol?

3. Ydych chi'n cytuno â nod y Strategaeth Fwyd o wneud bwyd yn elfen fwy canolog yn yr agenda economaidd a chymdeithasol ehangach?

4. Yn dilyn eich ateb i Gwestiwn 3: Os ydych yn cytuno, i ba raddau y dylid newid ein cynlluniau gweithredu a'n cynlluniau cyflenwi presennol yn y diwydiant bwyd e.e. cig coch, cyrchu lleol, twristiaeth fwyd, garddwriaeth, organig, cynnyrch llaeth, pysgodfeydd, i adlewyrchu'r agenda ehangach?

5. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys elfennau o'r gadwyn gyflenwi: cynhyrchu, prosesu a datblygu marchnadoedd. Ydych chi'n meddwl ein bod wedi dweud digon am brosesu a datblygu marchnadoedd? A fydd hyn yn ddigon i ddenu cynhyrchwyr cynradd sy'n dymuno ychwanegu gwerth at eu cynhyrchion?

6. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o gynnwys gwahanol rannau o'r sector bwyd er mwyn gweithio tuag at weledigaeth gyffredin? Beth allech chi neu'ch sefydliad ei ennill o weithio tuag at weledigaeth gyffredin fel hyn? A sut y byddwch chi/gallech chi gyfrannu at ei gwireddu? Nodwch os gwyddoch am gyrff neu sefydliadau penodol a ddylai gael cyfrannu mwy at y drafodaeth hon.

7. O blith y materion a godwyd, i beth y dylai'r sector bwyd roi blaenoriaeth ar unwaith yn eich barn chi? Pa faterion ydych chi'n credu allai fod yn bwysicach yn y tymor hwy? Yn eich barn chi pwy fyddai mewn sefyllfa i (a) alluogi a (b) cymryd y camau angenrheidiol?

8. Mae'r strategaeth hon yn nodi bod angen i'r sector bwyd fod yn gynaliadwy – o safbwynt economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Ydych chi o'r

farn fod gennych ddigon o wybodaeth am berfformiad y system fwyd yn y farchnad, am negeseuon iechyd, am ailgylchu ac am yr anghenion amgylcheddol? Ydych chi'n deall yn iawn beth a ddisgwylir gennych chi yn eich rhan chi o'r gadwyn gyflenwi? Ydych chi'n credu bod y wybodaeth hon yn addas a'i bod ar gael yn hwylus?

9. A ydi'r pum sbardun allweddol a amlinellir yn y Strategaeth yn ddigon i ddatblygu'r targedau a nodwyd?

10. Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod swyddogaeth ehangach bwyd. O ystyried y pwyslais a roddir ar ddatblygu'r sector bwyd, a ddylid bod wedi gwneud mwy i fynd i'r afael â materion ehangach fel iechyd a maeth, newid yn yr hinsawdd, y cynnydd yn mhrisiau ynni, anghenion pobl ar incwm isel?

11. Beth ddylai gael blaenoriaeth yn y tymor byr a'r hirdymor ym maes sgiliau a hyfforddiant yn y sector bwyd? Beth ddylai gael blaenoriaeth yn y tymor byr a'r hirdymor ym maes ymchwil a datblygu yn y sector bwyd?

12. Fe allai'r sector bwyd, fel cyflogwr, gyfrannu at chwalu rhwystrau a godwyd ar sail diwylliant, oedran, ethnigrwydd a rhyw. Ydych chi'n gweld y gallech chi gydweithio â'r gwneuthurwyr polisi i sicrhau hyn?

13. Mae'r strategaeth yn defnyddio'r thema ‘Building Connections; Building Capacities’ i danlinellu pwysigrwydd cydweithio ac integreiddio. Beth yw'r ffordd orau i ni newid y system o wneud polisïau ac ymgynghori er mwyn ei gwneud yn fwy effeithiol? A fyddech chi'n barod i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a'r llywodraeth ar y materion sydd bwysicaf i chi?

14. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi rhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi cyfeirio atynt yn benodol, gallwch wneud hynny yma:

Nodwch yma:

Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych i ni gadw'ch ymateb chi yn gyfrinachol, ticiwch yma: ☐